Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Feithrinfa The Owl & Pussycat
# Stryd yr Eglwys
# Caerllion
# Casnewydd
# NP18 1AW

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019

## gan

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

## a

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Meithrinfa The Owl & Pussycat

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Meithrinfa The Owl and Pussycat |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Catherine Jones |
| Person â gofal | Catherine Jones a Chloe Jeremiah |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 6 mis i 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 0 plentyn |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 5 o blant |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 7.30am i 6.00pm, dydd Llun i ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth, o ran y Gymraeg. Rydym yn argymell y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried 'Mwy na Geiriau: Fframwaith strategol dilynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym maes gofal cymdeithasol' Llywodraeth Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 24/11/2016 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 05/11/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br><br>Daw'r rhan fwyaf o blant o gartrefi Saesneg.  Ni nodwyd bod gan unrhyw blant anghenion dysgu ychwanegol. | |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Dd/b** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

***Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.***

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn darparu cyfleoedd difyr a phwrpasol i herio plant mwy abl yn briodol

A2 Gwella cynllunio i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) plant yn effeithiol

A3 Cryfhau gweithdrefnau hunanwerthuso er mwyn blaenoriaethu a gweithredu yn unol â meysydd i'w gwella

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu hunain yn glir a gyda hyder. Maent yn penderfynu pa weithgareddau mae arnynt eisiau cymryd rhan ynddynt ac yn dewis adnoddau'n annibynnol. Mae babanod yn defnyddio ciwiau di-eiriau yn briodol i fynegi eu hanghenion, er enghraifft trwy ddefnyddio ystumiau i gyfathrebu ag ymarferwyr i bwyntio at bethau o ddiddordeb. Mae plant yn rhyngweithio'n dda ag ymarferwyr yn ystod chwarae rhydd ac yn ystod gweithgareddau â ffocws. Mae plant bach a phlant cyn-ysgol yn cychwyn sgyrsiau'n effeithiol a gallant ddisgrifio pa weithgareddau maent yn eu mwynhau. Yn ystod amser cylch ac amser stori, maent yn gofyn yn hyderus pa storïau y byddent yn hoffi i ymarferwyr eu darllen iddyn nhw a pha weithgareddau y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt ar gyfer y diwrnod hwnnw.

Mae bron pob un o'r plant yn hapus ac yn gyfarwydd ag arferion y lleoliad. Maent yn ymdopi'n dda â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni ar ddechrau'r diwrnod. Maent yn mynd ati i chwarae yn gyflym iawn wedi iddynt gyrraedd, ac yn ymateb yn dda i'r croeso cynnes a'r sicrwydd cadarnhaol gan ymarferwyr. Er enghraifft, roedd un neu ddau o fabanod yn ansicr am gyfnod byr ar adegau amrywiol yn ystod y diwrnod, ond fe wnaethant ymateb yn gadarnhaol iawn i'r sicrwydd a'r cysur a roddodd ymarferwyr. Mae bron pob un o'r plant wedi ymlacio ac yn ffurfio perthnasoedd ymlyniad cryf gydag ymarferwyr sy'n gofalu amdanynt. Mae plant yn teimlo'n gyfforddus yng nghwmni ymarferwyr ac yn sgwrsio'n gynnes gyda nhw yn ystod chwarae rhydd ac amser prydau bwyd.

Mae bron pob un o'r plant yn cydweithredu, yn cymryd eu tro ac yn rhannu â phlant eraill, yn unol â'u hoedran a'u cyfnod datblygu. Maent yn barchus tuag at ei gilydd ac ymarferwyr, ac yn ymdopi'n dda â newid a'r arferion yn y lleoliad. Maent yn parchu adnoddau ac yn mwynhau helpu tacluso teganau o'r neilltu. Mae plant yn cymryd eu tro yn dda wrth ddefnyddio offer chwarae mawr ac yn rhannu teganau ac adnoddau'n llwyddiannus â phlant eraill.

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau eu chwarae rhydd ac yn mynd ati i gymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael iddynt. Maent yn cael ymdeimlad o gyflawni o'r hyn a wnânt, ac yn ymateb yn gadarnhaol i'r ganmoliaeth a gânt gan ymarferwyr. Er enghraifft, mae babanod yn mwynhau archwilio eu hamgylchedd a dewis eu teganau eu hunain, ac mae plant bach yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgarwch dawns a symud, gan wenu'n braf ac efelychu symudiadau ymarferwyr.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Dd/b**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae gan y lleoliad systemau effeithiol ar waith i gadw plant yn ddiogel ac iach. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r gweithdrefnau hyn ac mae systemau ar waith i sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant cyfoes mewn amddiffyn plant. Mae gan y lleoliad arferion clir ar waith o ran rheoli heintiau, gan gynnwys arfer briodol o ran gofal personol, golchi dwylo a pharatoi bwyd. Mae ymarferwyr yn rhoi gweithdrefnau diogel ac effeithiol ar waith ar gyfer gweinyddu meddyginiaeth a throsglwyddo babanod o'r lefel mesanîn i'r llawr gwaelod. Maent yn arddangos y weithdrefn wacáu ym mhob ystafell ac maent yn glir ynglŷn â'u rôl o ran sicrhau diogelwch plant os bydd tân. Mae polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn dda ac mae prydau bwyd yn ddigon amrywiol a maethlon. Mae proses glir ar gyfer cofnodi gofynion deietegol penodol plant a gwybodaeth allweddol am alergenau mewn cynhyrchion bwyd.

Mae ymarferwyr yn rhoi polisi rheoli ymddygiad y lleoliad ar waith yn llwyddiannus. Maent yn gosod ffiniau realistig yn unol ag oedran a chyfnod datblygu, ac yn sicrhau bod plant yn eu deall. Mae ymarferwyr yn gweithredu fel modelau rôl da ac yn defnyddio canmoliaeth ac anogaeth yn gyson i hyrwyddo hunan-barch plant.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad cyffredinol plant yn effeithiol. Maent yn ymatebol i anghenion unigol plant ac yn eu trin â charedigrwydd a sensitifrwydd, sy'n meithrin awyrgylch cynnes a gofalgar yn y lleoliad. Maent yn cydnabod pwysigrwydd chwarae yn yr awyr agored a'r awyr iach yn eu darpariaeth. Mae ymarferwyr yn mynd â phlant allan i'r ardal awyr agored yn rheolaidd, sy'n eu helpu i ddysgu cymryd eu tro, rhannu â'i gilydd a datblygu medrau corfforol priodol. Mae ymarferwyr yn ymgysylltu'n gadarnhaol â phlant i hyrwyddo eu chwarae a dysgu'n effeithiol, er enghraifft wrth eistedd i lawr gyda nhw ar eu lefel nhw i sgwrsio a gofyn cwestiynau pwrpasol am eu chwarae a'u dysgu. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn manteisio ar gyfleoedd i ymestyn medrau meddwl a datrys problemau plant ymhellach trwy holi pwrpasol. Mae ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol i hyrwyddo amrywiaeth a gwahanol ddiwylliannau, yn cynnwys gwyliau crefyddol a digwyddiadau arbennig fel Diwali ac Eid al-Fitr.

Adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw blant ag anghenion addysgol arbennig yn mynychu'r lleoliad. Fodd bynnag, mae gan y lleoliad weithdrefnau cadarn ar waith i nodi anghenion plant yn gynnar a chynllunio'n effeithiol ar eu cyfer, er enghraifft trwy

gysylltu ag asiantaethau allanol am gyngor arbenigol i sicrhau'r deilliannau gorau ar gyfer pob un o'r plant.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod werth chweil o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o blant yn llwyddiannus. Mae gweithgareddau dysgu yn adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn effeithiol ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd defnyddiol i blant wneud dewisiadau a dysgu trwy chwarae'n annibynnol yn dda. Maent yn cynnwys llais y plant yn y broses gynllunio trwy ddilyn eu diddordebau'n fedrus. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn darparu blociau pren ar gyfer creu 'cartrefi draenogod' ar ôl i'r plant fynegi mwynhad yn gwneud bara siâp draenog. Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant. Wrth siarad â phlant, defnyddiant ystod eang o eirfa yn dda ac maent yn sgwrsio â phlant am eu dysgu ac yn chwarae'n fedrus, er enghraifft wrth drafod gwahanol seiniau a wna tân gwyllt. Maent yn rhoi cyfleoedd i blant gyfrif yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gyfrif pompomau mewn pot gan ddefnyddio gefeiliau. Mae ymarferwyr yn gwneud cysylltiadau priodol â datblygu medrau a geirfa fathemategol, fel 'mwy', 'llai' a 'digon' o bowlenni a chwpanau amser byrbryd.

Mae pob un o'r ymarferwyr wedi sefydlu perthnasoedd gwaith cryf gyda phlant, a gwnânt ddefnydd da o ganmoliaeth ac anogaeth i wella dysgu a lles. Trwy ystod gynhwysfawr o brofiadau dysgu buddiol, mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol ac ysbrydol plant yn effeithiol. Maent yn annog plant i gymryd eu tro ag adnoddau, er enghraifft wrth rannu dillad gwisgo i fyny. Yn ychwanegol, mae ymarferwyr yn annog ymdeimlad o barchedig ofn a rhyfeddod yn llwyddiannus, er enghraifft wrth archwilio cynefinoedd moch coed. Mae ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth plant o'r byd y maent yn byw ynddo, er enghraifft trwy greu lampiau *diva* a threfnu gweithgaredd chwarae rôl i ddathlu Diwali. O ganlyniad i'r profiadau dysgu hyn, mae plant yn dysgu cydweithredu a rhannu adnoddau, gan ddangos gofal a thosturi at ei gilydd yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn darparu ystod foddhaol o adnoddau TGCh y mae plant yn mwynhau eu defnyddio fel cathod â rheolydd o bell a ffonau tegan. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn gwneud y gorau o gyfleoedd i sicrhau bod plant yn datblygu eu medrau TGCh yn briodol ac yn systematig.

Mae ymarferwyr yn modelu'r Gymraeg yn gyson dda ac yn darparu cyfleoedd effeithiol i blant ddatblygu eu medrau Cymraeg yn llwyddiannus. Maent yn annog plant i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gyfathrebu, er enghraifft wrth siarad am eu hoff liwiau. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd ystyrlon i blant ddysgu am eu diwylliant Cymreig, er enghraifft trwy wisgo gwisg draddodiadol a pheintio lluniau o gennin Pedr a baneri Cymru fel rhan o'u dathliadau Dydd Gŵyl Dewi.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol o'r gymuned leol i gefnogi dysgu trwy ymweld â mannau o ddiddordeb lleol a gwahodd ymwelwyr i siarad â'r plant. Er enghraifft, mae plant yn ymweld â'r cartref gofal preswyl lleol ar gyfer yr henoed yn rheolaidd, ac yn ddiweddar, fe wnaethant gawl a mwynhau ei fwyta gyda'i gilydd. Mae ymweliadau rheolaidd â'r gerddi cymunedol cyfagos, yn ogystal â'r siopau lleol, yn atgyfnerthu ymwybyddiaeth plant o'u hardal leol yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn defnyddio dull systematig i sicrhau bod medrau'r cyfnod sylfaen yn cael eu haddysgu. Mae ymarferwyr yn cofnodi arsylwadau o ddysgu plant yn rheolaidd ac yn drefnus. Maent yn cofnodi eu cyflawniadau fel 'storïau dysgu', sy'n darparu proffil gwerth chweil ac addysgiadol o gynnydd plant yn ystod eu cyfnod yn y feithrinfa. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn defnyddio gwybodaeth o asesiadau yn effeithiol i herio'r plant mwy abl i wella eu medrau mathemategol neu'u medrau llythrennedd. Rhoddir gwybod yn dda i rieni am gynnydd eu plentyn, er enghraifft trwy'r blog rhieni ar wefan y lleoliad, ac maent yn cael adroddiad ysgrifenedig cyn i blant drosglwyddo i'r ysgol.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae gan arweinwyr systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod amgylchedd y lleoliad yn ddiogel ac yn cynnwys system mynediad trwy ddrws electronig. Capel wedi'i drawsnewid yw'r adeilad, sydd â chyfleusterau llawr gwaelod a lefel mesanîn y mae'r ystafell i fabanod wedi'i lleoli ynddi. Caiff yr adeilad ei gynnal yn dda, mae'n lân ac wedi'i addurno'n dda. Mae ymarferwyr yn gwirio pwy yw ymwelwyr pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad. Mae gweithdrefnau addas ar waith i sicrhau bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cwblhau mewn modd amserol ac mae cofnodion yn dangos gwiriadau cyfoes o ran nwy, trydan a thân. Caiff risgiau diangen eu nodi a'u datrys lle bo modd trwy'r gwiriadau diogelwch dyddiol gan ymarferwyr.

Mae'r lleoliad yn groesawgar ac yn darparu amgylchedd sy'n addas i blant, sy'n ffafriol i chwarae a dysgu o ansawdd da. Gan ei bod yn feithrinfa fach, mae galw mawr am le, ond mae arweinwyr yn sicrhau bod ystafelloedd chwarae yn cael eu dylunio'n ystyriol ac yn diwallu anghenion y plant. Mae'r rhan fwyaf o adnoddau ar gael yn hawdd ac yn cael eu storio mewn blychau clir, gan alluogi annibyniaeth i blant wrth iddynt ddewis teganau ac offer. Mae ardaloedd pwrpasol ar gyfer gweithgareddau tawelach yn ogystal ag ardaloedd dynodedig ar gyfer chwarae anniben. Mae cyfleusterau ystafell ymolchi o safon uchel ac mae cyfleusterau ar lawr gwaelod yr adeilad yn caniatáu cryn dipyn o annibyniaeth i blant. Mae ystafelloedd yn elwa ar oleuni naturiol priodol ac fe gaiff plant cyn-ysgol fynediad uniongyrchol o'u hystafell chwarae i'r ardal awyr agored. Mae'r gofod y tu allan yn darparu amrywiaeth o ardaloedd ag adnoddau da ar gyfer chwarae a dysgu, yn cynnwys ardal blannu ar gyfer tyfu perlysiau a llysiau, ac mae canopi defnyddiol yn darparu lloches mewn tywydd gwael. Gall plant ddefnyddio'r gofod yn yr awyr agored yr holl amser.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn gallu elwa ar gyflenwad da o adnoddau ac offer. Mae adnoddau'n briodol i oedran, yn lân ac yn cael eu cynnal yn dda. Mae plant yn elwa ar fyrddau a chadeiriau pren o ansawdd da, ac o faint addas, a llawer o adnoddau chwarae pren o ansawdd da. Mae gan y lleoliad ystod addas o adnoddau, yn cynnwys teganau, deunyddiau chwarae a llyfrau i ddatblygu dealltwriaeth plant o amrywiaeth a'r byd o'u cwmpas. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod amrywiaeth o arwyddion, labeli a llyfrau Cymraeg i alluogi plant i ddeall eu bod yn byw yng Nghymru ac yn arddel eu diwylliant yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn darparu deunyddiau naturiol i annog chwilfrydedd plant, er enghraifft conau, cerrig a choncyrs. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo cynaliadwyedd yn dda. Maent yn annog plant i ailgylchu deunyddiau ac yn deall bod angen lleihau gwastraff. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn creu cynwysyddion paent o boteli sebon dwylo wedi'u defnyddio.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan arweinwyr weledigaeth gref ar gyfer y lleoliad yn seiliedig ar ddarparu gofal o ansawdd uchel ar gyfer plant. Ceir ethos cadarnhaol a thosturiol ar draws y lleoliad, ac mae ymarferwyr yn dangos ymroddiad diffuant i'w rolau. Mae arweinwyr wedi sefydlu perthnasoedd cadarnhaol gyda rhieni, ymarferwyr a phlant ac maent yn sicrhau eu bod wir yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi a'u bod yn cael gofal. Mae'r lleoliad yn sefydlu cyswllt rheolaidd â rhieni trwy gylchlythyrau misol, y safle cyfryngau cymdeithasol a reolir yn ofalus a'r cyfarfod cychwynnol â rhieni. Mae'r ddau arweinydd yn rhannu cyfrifoldebau ar gyfer arwain a rheoli'r lleoliad yn effeithiol ac yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau'n llwyddiannus. O ganlyniad, mae lles plant ac ymarferwyr yn gyson dda. Mae gan ymarferwyr swydd-ddisgrifiadau cyfoes sy'n nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt. Mae'r datganiad o ddiben yn rhoi darlun cywir o'r hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig, ac fe gaiff ei adolygu'n rheolaidd. Ceir ystod eang o bolisïau a gweithdrefnau priodol sy'n cefnogi gwaith y lleoliad yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr wedi sefydlu systemau a phrosesau hunanwerthuso priodol, sy'n nodi cryfderau'r lleoliad. Maent yn arsylwi ymarferwyr yn eu gwaith, yn trafod eu lles yn effeithiol ac yn nodi anghenion hyfforddiant perthnasol yn ddefnyddiol. Mae arweinwyr wedi nodi meysydd addas i'w datblygu, fel gwella medrau mathemategol a TGCh cynnar plant. Fodd bynnag, nid ydynt yn blaenoriaethu meysydd i'w gwella nac yn gweithredu yn unol â nhw bob amser, ac felly, caiff llawer o dargedau eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn nesaf. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn araf i fynd i'r afael â meysydd pwysig mewn modd amserol, fel datblygu medrau TGCh plant ac ymarferwyr.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod nifer ddigonol o ymarferwyr yn gweithio yn y lleoliad. Mae pob un o'r ymarferwyr yn meddu ar gymwysterau da, ac fe gânt eu defnyddio'n effeithiol, gan wneud y gorau o'u harbenigedd. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi cyflogi rhywun sy'n siarad Cymraeg yn rhugl sydd wedi gwella faint o Gymraeg a geir ar draws y sefydliad, a safon y Gymraeg. Mae arweinwyr yn sicrhau eu bod yn

cydymffurfio â phrosesau recriwtio diogel, trylwyr ac amserol ar gyfer yr holl benodiadau newydd.  Mae’r broses ymsefydlu gychwynnol yn cefnogi ymarferwyr newydd yn dda.  Mae arweinwyr yn rhoi systemau goruchwylio ac arfarnu buddiol ar waith, sy’n annog ymarferwyr i fyfyrio ar eu perfformiad a nodi meysydd i’w gwella.  Maent yn cefnogi ymarferwyr yn dda ac yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau, gan sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant perthnasol i ddatblygu eu gwybodaeth a’u medrau.  Maent yn cefnogi staff yn eu datblygiad proffesiynol fel eu bod yn teimlo y cânt eu cynnwys yn llawn yn y lleoliad, ac mewn gwella deilliannau ar gyfer plant.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn gweithio’n effeithiol gydag amrywiaeth o bartneriaid ac mae hyn yn cyfrannu’n fuddiol tuag at godi safonau a hyrwyddo lles plant.  Mae’r berthynas gadarnhaol rhwng ymarferwyr a theuluoedd yn gryfder go iawn.  Er enghraifft, mae arweinwyr yn trefnu ‘prynhawniau neiniau a theidiau’ buddiol er mwyn i neiniau a theidiau arsylwi a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd, yn cynnwys crefft, gyda’u hwyrion a’u hwyresau.  Mae polisi drws agored y lleoliad yn sicrhau bod rhieni’n cael cyfleoedd rheolaidd i gyfarfod ag ymarferwyr i drafod unrhyw bryderon yn gynnar iawn.

Mae gan y lleoliad amrywiaeth o bartneriaethau gwerthfawr a buddiol sy’n cael effeithiau cadarnhaol ar ddarpariaeth a chynnydd plant.  Mae gan y lleoliad gysylltiadau cryf â’r gymuned, ac mae’n gweithio’n llwyddiannus gydag asiantaethau eraill i gefnogi plant, er enghraifft rhaglen Plant Bach Egnïol (Active Tots) Casnewydd.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/01/2020